## DARLLENWCH FI GYNTAF - AWGRYMIADAU GAN GYFLENWYR AR GYFER CWBLHAU EICH YMATEB

| [19 | Nodyn | Manylion y Nodyn |
|---|---|---|
| 1.1.1 | Nodyn: | Defnyddiwch yr adnodd 'CYMORTH I GYFLENWYR' ar-lein – Mae'r cynnwys wedi'i ddylunio i egluro'r llwyfan *eSourcing* yn nhermau busnes, gan eich helpu i ddeall nodweddion a buddion y feddalwedd yn gyflym. Cyflwynir cynnwys CYMORTH I GYFLENWYR gan fodiwl meddalwedd, ac mae wedi'i rannu i weithgareddau'r broses megis Holiaduron Cyn Cymhwyso, Gwahoddiadau i Dendro ac Ocsiynau – yn union fel y feddalwedd ei hun. |
| 1.1.2 | Nodyn: | ARBEDWCH YN GYSON – Am resymau diogelwch bydd eich mynediad i'r porthol yn 'rhedeg allan' os yw'n segur am 15 munud, ac os nad ydych yn clicio 'arbed' yn yr amser hwn. Os methwch wneud hyn, bydd perygl i chi golli eich gwaith – mae hyn yn rhan o ofynion caeth y llywodraeth i gynnal diogelwch a chywirdeb tendrau, ac ni ellir ei newid. NODER: nid yw teipio yn golygu eich bod yn 'actif' ar y porthol! |
| 1.1.3 | Nodyn: | Sicrhewch NAD YW 'pop ups' wedi cael eu blocio ar eich porwr. Pe baech yn anactif am 15 munud, bydd y porthol yn rhoi gwybod i chi drwy 'pop up'. Mae'n hanfodol eich bod yn gallu gweld hwn er mwyn pwyso'r ddolen '*Refresh*' yn y 'pop up' hwn fel nad ydych yn cael eich datgysylltu o'r porthol ac yn colli unrhyw wybodaeth nad ydych wedi'i harbed. |
| 1.1.4 | Nodyn: | Sicrhewch eich bod yn darllen ac yn cofio popeth sydd angen i chi ei wneud a'r terfynau amser priodol, ac unrhyw gyfathrebiadau dilynol. |
| 1.1.5 | Nodyn: | PEIDIWCH Â gadael eich ymateb tan y munudau/oriau olaf cyn y dyddiad cau (pe baech yn cael problemau cysylltiad, byddwch yn methu'r dyddiad cau ac mae'n bosib y bydd eich ymateb yn cael ei ystyried yn un nad yw'n cydymffurfio ac y caiff ei wrthod gan y tîm prynu – uwch lwythwch wybodaeth gyffredinol yn fuan i osgoi pwysau munud olaf). |
| 1.1.6 | Nodyn: | CYFLWYNWCH eich YMATEB pan fyddwch wedi cwblhau. Bydd hyn yn cyflwyno eich ymateb i'r prynwr. OS NA WNEWCH HYN, NI FYDD EICH BID YN WELADWY I'R PRYNWR. Mae'r botwm 'CYFLWYNO YMATEB' ar y top yng nghanol y sgrin. |
| 1.1.7 | Nodyn: | Os yw'r Prynwr yn gwneud unrhyw newidiadau i'r adran gosodiadau a cwestiynau ar dendr sy'n fyw/yn rhedeg, RHAID i gyflenwyr ailgyhoeddi eu hymateb – mae hyn er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu dwyn i'ch sylw – mae'n bosib y cewch neges brompt gan y Prynwr – yn gyffredinol, ni fydd hyn yn golygu rhoi gwybodaeth i mewn eto. |
| 1.1.8 | Nodyn: | Er bod y porthol yn caniatáu atodi ffeiliau unigol mawr (uchafswm o 50mb ar y tro), byddem yn argymell i chi gadw atodiadau i faint rhesymol i wneud mynediad yn gynt ac yn rhwydd. Atodwch ddogfennau mae'r Prynwr wedi gofyn amdanynt yn unig a sicrhewch eich bod yn eu hatodi yn yr adran gywir (fel arfer: 'Ymateb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Technegol' ar gyfer ymatebion dibris ac 'Ymateb Masnachol' am ddyfynbrisiau). | |
| 1.1.9 | Nodyn: | Defnyddiwch y negeseuon diogel (*secure messaging*) i gyfathrebu gyda'r Prynwr a cheisio eglurhad – bydd hyn yn rhoi llwybr archwilio i chi o'r trafodaethau/pwyntiau egluro. | |
| 1.1.10 | Nodyn: | Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y feddalwedd cyfeiriwch at 'CYMORTH I GYFLENWYR' yn y lle cyntaf, ac oes yw'r mater yn parhau, e-bostiwch neu ffoniwch ddesg gymorth BravoSolution gyda chyfeirnod tendr, disgrifiad clir o'r broblem a'ch manylion cyswllt (sicrhewch eich bod yn gadael digon o amser i ddatrys materion cyn unrhyw ddyddiad cau). | |
| 1.1.11 | Nodyn: | PEIDIWCH Â defnyddio'r botymau 'Yn ôl' neu 'Ymlaen' ar eich porwr, gallech golli eich gwaith. Defnyddiwch y dolenni ar y porthol eDendro i wneud eich ffordd drwy'r tendrau. | |
| 1.1.12 | Nodyn: | Dylai pobl sy'n defnyddio Mac ddefnyddio porwr Firefox (sydd ar gael am ddim yn: http://www.mozilla.com/firefox) gan nad yw'r porwr Safari yn cefnogi rhai sgriptiau Java penodol. Pe baech yn cael problemau gyda Firefox hefyd cysylltwch â desg gymorth BravoSolution. | |
| 1.1.13 | Nodyn: | Er mwyn deall eiconau, defnyddiwch eich llygoden i 'hofran' uwchben yr eicon a gweld y '*TOOLTIP*'. Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfyngiad pwrpasol o 2000 o symbolau (± 350 gair) ar ymatebion testun. Os yw'r Prynwr angen ymateb mwy, byddant yn ychwanegu blwch testun arall neu gwestiwn 'Atodiad'. Nodwch hefyd na fydd adrannau Rhifol yn derbyn testun, bylchau, symbolau ac ati. Nodwch fod seren goch yn golygu adran y mae'n rhaid ei llenwi – rhaid cwblhau hwn er mwyn cyflwyno eich ymateb i'r prynwr. | |
| 1.1.14 | Nodyn: | Gellir sefydlu is-ddefnyddwyr ar y porthol hefyd i alluogi cydweithwyr i fod yn rhan o wahanol gamau'r tendr – gweler y botwm 'CYMORTH I GYFLENWYR' am fanylion. | |
| 1.1.15 | Nodyn: | Os ydych yn dirprwyo eich ymateb, sicrhewch fod eich cydweithwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hon ac yn eithaf deallus gyda PC (MS Office/Explorer). | |
| 1.1.16 | Nodyn: | Byddwch yn ofalus wrth logio ymlaen i'r porthol eDendro – os ydych yn credu eich bod wedi colli eich cyfrinair – logiwch ymlaen i'r wefan a chliciwch "Wedi anghofio eich cyfrinair?" a dilynwch y cyfarwyddiadau. | |
| | **Cwestiwn** | **Disgrifiad** | **Math y Cwestiwn** |
| 1.1.17 | Derbyn y Cyfarwyddiadau | Ydych chi wedi darllen a deall y cyfarwyddiadau uchod? | Do/Na Gwerth |
| 1.1.18 | Enw a Swydd yn y Cwmni | Nodwch eich enw a'ch swydd o fewn eich sefydliad | Testun |
| 1.1.19 | Dyddiad | Nodwch y dyddiad pan gwblhawyd yr adran hon | Dyddiad |